Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Clinig City Skin Doctor, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 11 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83504-866-5

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5
2. Crynodeb o'r arolygiad ..... 6
3. Yr hyn a nodwyd gennym ..... 9
   - Ansawdd Profiad y Claf ..... 9
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ..... 12
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 15
4. Y camau nesaf ..... 17

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... 18

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith ..... 19

Atodiad C – Cynllun gwella ..... 20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig City Skin Doctor, 225 City Road, Caerdydd, CF24 3JD ar 11 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 18 o holiaduron. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roed Clinig City Skin Doctor yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol. Roedd yr ystafell drin yn lân ac yn daclus ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.

Roedd darpariaeth ar gyfer adborth dienw yn y dderbynfa a chaiff adolygiadau ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol eu monitro a'u dadansoddi i wella'r gwasanaeth.

Cafodd derbynfa'r llawr gwaelod a'r ystafelloedd trin eu dylunio â drysau a choridorau mwy llydan ar gyfer cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, nid oedd yr ystafelloedd triniaeth laser ar y llawr gwaelod yn caniatáu mynediad i gleifion â'r gofynion hyn.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Diweddaru'r canllawiau i gleifion i gynnwys cost triniaethau laser, manylion cyswllt AGIC a sut i gael gafael ar adroddiad arolygu diweddaraf AGIC
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ymwybyddiaeth cleifion o ganlyniadau adborth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Mae'r staff yn siarad amrywiaeth o ieithoedd er mwyn galluogi cyfathrebu clir â chleientiaid nad ydynt yn siarad Saesneg
- Trin y cleifion ag urddas a pharch.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu, roedd gan y clinig reolau lleol cyfredol ac roedd contract Cynghorydd Diogelu Laserau cyfredol yn ei le. Roedd Profion Offer Cludadwy wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Fodd bynnag roedd yr arolygiad gwifrau bob pum mlynedd wedi dod i ben ym mis Rhagfyr 2022.

Roedd y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu, er nad oedd asesiad risg tân cyfredol ar gyfer y safle ar gael. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer diogelu oedolion

sy'n agored i niwed gyda hebryngwyr naill ai'n cael eu darparu neu'n cael caniatâd i fynychu pan fo angen.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus o fewn yr adeilad. Fodd bynnag roedd yr amserlenni glanhau yn sylfaenol. Roedd yr ardd y tu allan, ger yr allanfa dân gefn wedi gordyfu.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arolygiad gwifrau bob pum mlynedd i'w gynnal cyn gynted â phosibl
- Asesiad risg tân cyfredol i'w roi ar waith ar gyfer y lleoliad
- Torri'r gordyfiant yn yr iard gefn er mwyn hwyluso gwagio'n hawdd drwy'r allanfa dân gefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cedwir cofnodion y cleifion yn ddiogel drwy ddefnyddio system cofnodion ddigidol wedi'i diogelu gyda PIN a chwpwrdd ffeilio wedi'i gloi.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd gan y staff rolau penodol amlwg ac roeddent yn ymddangos yn frwdfrydig ac yn wybodus am eu gwaith a thuag at eu cleientiaid. Roeddent yn dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus, dealltwriaeth dda o'r rheoliadau a phwysigrwydd cadw cofnodion cynhwysfawr. Mae pob aelod o'r staff yn destun gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y clinig. Maent yn cwblhau cyfnod prawf o 90 diwrnod a chânt gontract cyflogaeth.

Roedd polisïau wedi cael eu hadolygu a'u llofnodi gan y rheolwr cofrestredig gyda chofnod o hanes fersiynau. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i lywio gwelliannau yn y gwasanaethau. Roedd gweithdrefn gwyno ar waith a oedd yn cynnwys cofnodlyfr a oedd yn cael ei gadw a'i adolygu gan y rheolwr cofrestredig i nodi unrhyw themâu neu faterion hyfforddiant oedd yn codi. Fodd bynnag, nid oedd cwynion ar lafar yn cael eu cofnodi ar y pryd bob amser.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos yswiriant atebolrwydd cyflogeion er mwyn i'r gweithwyr ei weld yn hawdd
- Staff i lofnodi dogfennau polisi unigol i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisi ac unrhyw adolygiadau dilynol
- Cwynion ar lafar i'w cofnodi ar y pryd gan yr aelod o'r staff fydd yn derbyn y gŵyn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff a'r rheolwyr
- Adolygu adborth ac archwiliadau yn rheolaidd i wella'r gwasanaeth.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth. Cawsom gyfanswm o 18 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Nododd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’.

Dywedodd un claf wrthym:

> *"...mae'r gwasanaeth, yr ansawdd a'r rheolaeth yn City Skin Doctor llawer gwell na'r cyfartaledd."*

**Urddas a pharch**
Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym (15/18) eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Gwelsom fod gan Glinig City Skin Doctor un ystafell triniaeth laser ar y llawr gwaelod. Gwelsom fod yr ystafell yn lân ac yn daclus. Roedd gan yr ystafell ddrws yr oedd modd ei gloi lle gallai'r cleifion newid mewn preifatrwydd. Darparwyd tywelion i'r cleifion ddefnyddio drwy gydol eu triniaethau er mwyn diogelu eu hurddas. Cadarnhawyd bod y drws yn cael ei gloi yn ystod y driniaeth er mwyn cynnal preifatrwydd.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn parchu sensitifrwyddau diwylliannol gyda gwasanaeth hebryngwyr ar gael yn ôl yr angen. Fel arall gallai'r cleifion ofyn am gael mynychu gyda'u hebryngwr eu hunain drwy drefnu ymlaen llaw.

Roedd yr ymgyngoriadau â'r cleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafell ymgynghori benodol, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol yn breifat.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopïau caled i ni o ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y clinig. Nid oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys amlinelliad o'r broses gwyno ac felly nid oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

**Rydym yn argymell i'r gwasanaeth ddiweddaru'r Datganiad o Ddiben i gynnwys y trefniadau ar gyfer delio â chwynion fel y'i nodir yn Rheoliad 24.**
Gwelsom fod y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac felly roedd angen ei hadolygu. Ceir crynodeb o'r weithdrefn gwyno yn y canllaw i gleifion. Fodd bynnag, roedd crynodeb o adborth gan gleifion, manylion cyswllt AGIC a'r adroddiad arolygu diweddaraf ar goll. Yn ogystal, nid oedd yn cynnwys canllawiau clir ar daliadau ar gyfer triniaethau. Fodd bynnag, roedd rhestr prisiau ar wahân ar gael yn ardal y dderbynfa.

**Rydym yn argymell i'r gwasanaeth ddiweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.**

Roedd gan y clinig wefan a thaflenni gwybodaeth ar gael yn y safle.

Mae'r rheolwr cofrestredig a'r staff yn gallu cyfathrebu mewn sawl iaith gan helpu i ddiwallu anghenion eu cleifion. Gellir gwneud trefniadau ymlaen llaw i ddarparu cyfieithwyr ar y pryd mewn ieithoedd eraill.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Roedd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn cael unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig. Roedd taflenni gwybodaeth ar gael i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol. Roedd y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu cydsyniad ysgrifenedig ar ddechrau pob cwrs o driniaeth.

**Cynllunio a darparu gofal**
Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd nodiadau cleifion unigol manwl ar gael, gyda thystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd dogfennaeth dda ar waith yn ymdrin â math o groen, cydsynio i driniaeth ym mhob apwyntiad ac adolygiad hanes meddygol.

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr o driniaethau laser fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd ganddynt gofrestr o'r fath am ei bod wedi'i chynnwys yng nghofnodion unigol y cleifion. Gwelwyd bod y rhain yn cofnodi pob cofnod angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

**Rydym yn argymell bod y rheolwr cofrestredig yn cadw cofrestr yn cofnodi pob adeg y darperir triniaethau laser, sy'n benodol i'r peiriant yn hytrach na chael eu gwahanu i ffeiliau unigol y cleifion.**

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Cawsom ein sicrhau bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio. Cawsom sicrwydd y byddai hawliau dynol cleientiaid trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn.

Roedd mynediad da i'r adeilad. Fodd bynnag roedd mynediad i bobl â symudedd cyfyngedig yn gyfyngedig oherwydd grisiau sy'n arwain i lawr i'r ystafell driniaeth laser. Nid oes cyfeiriad at y broblem mynediad hon yn nhaflenni'r clinig.

**Rydym yn argymell bod y clinig yn sicrhau y caiff y problemau mynediad eu cynnwys yn y datganiad o ddiben a rhoi gwybod i'r cleifion ag anawsterau symudedd yn y cyswllt cyntaf.**

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gellid rhoi adborth y cleifion am y gwasanaeth drwy'r bocs adborth yn y dderbynfa, drwy e-bost neu drwy adolygiadau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad, nid oedd darpariaeth i wneud cleifion yn ymwybodol o ganlyniadau'r adborth oni bai am gyfathrebu uniongyrchol un i un, ac eithrio'r rhai sy'n rhoi adborth yn ddienw yn amlwg.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r canllaw i gleifion i gynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion ac eraill sy'n rhan o'r gwasanaeth, yn unol â'r rheoliadau.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom fod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd gwiriad weirio trydanol wedi'i gynnal yn yr adeilad yn y pum mlynedd diwethaf. Dywedwyd wrthym nad oedd gan y safle gyflenwad nwy.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r arolygiad weirio bob pum mlynedd gael ei gynnal a throsglwyddo tystiolaeth unwaith iddo gael ei gwblhau.**

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer diogelwch tân a gwelsom fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu'n flynyddol a bod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân. Fodd bynnag, gwelsom fod yr iard y tu allan i'r allanfa dân gefn wedi gordyfu a oedd o bosibl yn golygu nad oedd llwybr dianc digonol pe byddai tân.

**Rydym yn argymell i'r rheolwr cofrestredig dorri'r gordyfiant yn yr iard gefn er mwyn gallu gwagio'n hawdd drwy'r allanfa dân hon.**

Dywedwyd wrthym fod y profion a'r ymarferion larymau tân yn digwydd ac roedd cofnodion ar gyfer yr ymarferion tân ar gael yn ystod yr arolygiad. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân mewnol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd asesiad risg tân ar gael ar gyfer safle Caerdydd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cynhelir asesiad risg thystiolaeth inni am sy'n benodol i safle Caerdydd a throsglwyddo copi i AGIC unwaith y mae wedi'i gwblhau.**

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael gyda chynnwys cyfredol. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwnaeth pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC nodi bod y clinig yn lân iawn neu'n weddol lân ac roedd pob un ohonynt yn credu bod y mesurau Rheoli ac Atal heintiau yn cael eu dilyn.

Gwelsom fod y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus er y gwelsom un cadair yn yr ystafell ymgynghori ac un yn yr ystafell triniaeth laser a oedd wedi'u gwisgo ac wedi'u difrodi a allai achosi risg rheoli heintiau.

**Rydym yn argymell y dylai'r cadeiriau naill ai gael eu hatgyweirio neu eu newid er mwyn sicrhau bod modd eu glanhau'n ddigonol.**

Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau â rheolwr y clinig a'r rheolwr cofrestredig gan ddod i'r casgliad eu bod yn briodol i amddiffyn y cleifion rhag achosion o groes-heintio, oni bai am y ddwy gadair sydd wedi'u difrodi. Gwelsom amserlenni glanhau yn dangos trefniadau beunyddiol. Fodd bynnag roedd hyn yn eithaf elfennol ac nid oedd yn cynnwys unrhyw fanylion, er enghraifft pa ystafelloedd neu ba gyfarpar oedd wedi cael eu glanhau.

**Rydym yn argymell i'r gwasanaeth roi amserlen glanhau fwy manwl ar waith i ddangos y cydymffurfir â'r polisi atal a rheoli heintiau.**

Gwelsom fod contract gwaredu gwastraff clinigol ar waith a gwelsom fod contract ar waith gyda chludwr gwastraff cymeradwy.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Dim ond cleifion dros 18 oed y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w trin. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu. Roedd polisïau ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm atgyfeirio diogelu lleol. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion.

Eglurodd y rheolwr cofrestredig os bydd unrhyw glaf yn dod â phlentyn ar y safle, y byddai'n rhaid i'r plant fod yng nghwmni oedolyn arall bob amser.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaeth a graddnodi flynyddol a oedd yn gyfredol. Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol cyfredol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwyr laser.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig bod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio i atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser ac mai dim ond gydag allwedd sy'n caei ei chadw gan y staff y gellir ei actifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r rheolwr cofrestredig yn ceisio cael safbwyntiau'r cleifion yn aml fel ffordd o hysbysu gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau bod y wybodaeth yn gyson ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Mae'r rheolwr cofrestredig hefyd yn aml yn defnyddio cyfarfodydd staff i gael adborth mewnol a barn am welliannau.

**Rheoli cofnodion**
Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar bump sampl o gofnodion cleifion gan nodi eu bod o safon dda.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys dyddiadau fersiynau a dyddiadau adolygu. Caiff unrhyw newidiadau i bolisïau neu weithdrefnau eu tynnu at sylw'r staff drwy gyfarfodydd staff a hyfforddiant mewnol lle rhoddwyd tystysgrifau presenoldeb.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, ac roedd y staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Ni welwyd tystysgrif o Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr yn cael ei harddangos.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod Tystysgrif o Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr cyfredol yn cael ei harddangos mewn man sy'n hawdd i'r staff ei gweld.**

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd polisi cwynion manwl ar waith.

Gwelsom fod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Dywedwyd wrthym y byddai cwynion llafar a roddir i'r staff yn cael eu trosglwyddo i'r rheolwr cofrestredig rywbryd i'w rhoi ar y system. Fodd bynnag gan fod y rheolwr cofrestredig hefyd yn gweithio yn y safle yn Llundain mae hyn yn codi'r posibilrwydd y gellir anghofio am gwynion a pheidio eu cofnodi.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried rhoi mynediad i'r staff ddefnyddio'r cofnodlyfr cwyno i gofnodi cwynion llafar ar yr yr adeg y bydd yr aelod o'r staff yn derbyn y gŵyn.

**Cynllunio’r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob unigolyn ag awdurdod i ddefnyddio'r peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant sy'n benodol i'r ddyfais gan y gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant ychwanegol ac unrhyw gynadleddau perthnasol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant amrywiol sy'n cadarnhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff.

**Arferion recriwtio a chyflogi’r gweithlu**
Nododd y rheolwr cofrestredig fod y tîm o staff cyfredol wedi hen ymsefydlu a disgrifiodd y prosesau recriwtio. Caiff swyddi gwag eu hysbysebu, a chaiff ymgeiswyr eu cyfweld a gofynnir am eirdaon ar eu cyfer lle y bo modd. Mae

aelodau newydd o'r staff yn cyflawni gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac maent yn cwblhau cyfnod prawf. Rhaid i weithredwyr awdurdodedig y peiriant laser gwblhau'r hyfforddiant priodol.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn** | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Clinig City Skin Doctor

## Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.** | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Clinig City Skin Doctor**

**Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cael ei ddiweddaru er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:<br>• Cost ar gyfer cyrsiau o driniaethau<br>• Crynodeb o'r adborth<br>• Manylion cyswllt AGIC | Rheoliad 7 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Mae'r holl wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei hychwanegu at y canllaw i gleifion eisoes. | E Feghenaby | wedi'i gwblhau |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion unigol cleifion a gofynion hygyrchedd eu hystyried a, lle y bo'n bosibl, y caiff addasiadau rhesymol eu rhoi ar waith. Dylai hyn gynnwys:** | Rheoliad 15(1a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Bydd y Datganiad o Ddiben yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny i fynd i'r afael â phroblemau symudedd. | E Feghenaby | 30/08/23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad o Ddiben i hysbysu'r cleifion o'r problemau symudedd y tu mewn i'r clinig. | | | | |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob tro y darperir triniaethau laser:**<br><br>• **Argymhellir i'r gofrestr fod yn benodol i'r ddyfais yn hytrach na chael ei gwahanu i ffeiliau unigol y cleifion.** | Rheoliad 45 (2) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Bydd rhestr ar wahân o gleifion sy'n cael triniaeth Candela. | E Feghenaby | 22/08/23 |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr arolygiad gwifrau bob pum mlynedd ei gynnal** | Rheoliad 26 (2) (a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Mae'r Arolygiad Gwifrau wedi'i gynnal gan drydanwr ac wedi'i ardystio. Yn aros am dystysgrif. | E Feghenaby | 30/08/23 |
| **Cael gwared ar y gordyfiant yng nghefn y safle er mwyn hwyluso gwagio drwy'r allanfa dân gefn** | Rheoliad 26 (2) (a) o Reoliadau Gofal Iechyd | Cafwyd cadarnhad dros e-bost o lanhau ymyl y goedwig a gordyfiant y gwrychoedd gan y gwerthwr tai a bydd yn cael ei weithredu yr wythnos nesaf. | E Feghenaby | 30/08/23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 14 (1) Diwygiad Rheoleiddio (Diogelwch Tân) Gorchymyn 2005 | | | |
| **Asesiad risg tân sy'n ymwneud â safle Caerdydd** | Rheoliad 26 (2) (a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 9 (1) Diwygiad Rheoleiddio (Diogelwch Tân) Gorchymyn 2005 | Mae'r asesiad risg tân wedi'i gynnal eisoes ac mae tystysgrifau ar waith ers 15/07/23 | E Feghenaby | wedi'i gwblhau |
| **Argymhellir bod y gwasanaeth yn atgyweirio neu'n newid y cadeiriau sydd wedi'u gwisgo yn yr ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori er mwyn hwyluso'r gweithdrefnau rheoli heintiau.** | Rheoliad 15 (8)c(i) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Mae pob cadair oedd wedi'i gwisgo wedi cael ei newid i fynd i'r afael â rheoli heintiau. | E Feghenaby | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cedwir amserlenni glanhau gan fanylu ar eitemau, ardaloedd ac amlder a'u llofnodi fel cadarnhad** | Rheoliad 15 (8) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Mae amserlen glanhau fanwl bellach ar waith yn unol â'r canllawiau gyda meysydd penodol yn y clinig. | E Feghenaby | Wedi'i gwblhau |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod Tystysgrif o Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr cyfredol yn cael ei harddangos** | Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 | Mae fersiwn ddiwygiedig o yswiriant atebolrwydd y Cyflogwr bellach yn cael ei arddangos. | E Feghenaby | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Ebrahim Feghenaby**

**Swydd: Rheolwr**

**Dyddiad: 21/08/23**